Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Rhagfyr 2015

**Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft.**

Annwyl Weinidog

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgymryd â chraffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft. Yr wyf yn ddiolchgar ichi am roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses hon.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr y bwriad i ddiwygio'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy ddeddfwriaeth. Mae'n hanfodol bod diwygio yn cael ei wneud yn y ffordd iawn, ac yn cynnwys y rhai ar draws y proffesiwn. Mae cyhoeddi'r Bil drafft yn gam pwysig wrth gyflawni'r diwygiadau sydd eu hangen, ac rydym yn croesawu eich ymrwymiad i weithio gyda rhanddeiliaid wrth fwrw ymlaen â'r diwygiadau.

Mae'r craffu cyn y broses ddeddfu y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ef wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o waith i'w wneud cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol. Mae llawer o feysydd o ansicrwydd, gan gynnwys yn rhai o elfennau allweddol y Bil drafft. Mae angen hefyd i oblygiadau ariannol y Bil fod yn gliriach, gan nad oes digon o fanylion am y costau wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol drafft ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae cefnogaeth drawsbleidiol yn parhau ar gyfer cyflwyno system ADY well, ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyflwyno Mesur sy'n sicrhau diwygio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gall craffu cyn y broses ddeddfu helpu i sicrhau gwelliannau gwirioneddol

mewn cynigion deddfwriaethol, ac felly rydym yn croesawu'r cyfle i fwydo i mewn i'ch ymgynghoriad ffurfiol ar y Bil drafft.

**Craffu cyn y broses ddeddfu**

Ystyriodd y Pwyllgor y Bil drafft yn wyneb y Cod drafft a gyhoeddwyd gennych ar 30 Medi.  Roedd y craffu cyn y broses ddeddfu yn canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a oedd yn hawdd eu hadnabod o fewn y Bil drafft a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ehangach:

**Thema 1:** Gwaith amlasiantaeth a chydweithredu rhwng llywodraeth leol ac iechyd

**Thema 2:** Manteision a heriau system gymorth wedi'i graddio

**Thema 3:** Datrys anghydfodau a chreu system decach a mwy tryloyw

**Thema 4:** Sefydlu system 0-25

Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaethau cyffredinol anffurfiol gyda rhanddeiliaid yn seiliedig ar y themâu hyn, a chlywed tystiolaeth lafar gan Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA) a SNAP Cymru, CLlLC / CCAC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

Cyhoeddodd y Pwyllgor hefyd alwad am dystiolaeth, a derbyniwyd 23 o ymatebion. Mae'r ymatebion wedi cael eu cyhoeddi ac maent ar gael ar **dudalen we** y Pwyllgor.

Roedd y dystiolaeth a gafodd y pwyllgor yn gadarnhaol yn gyffredinol am nodau ac amcanion y Bil drafft.  Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon gan bob ymatebydd ynghylch yr agweddau ymarferol ar y diwygiadau arfaethedig.  Mynegwyd barn hefyd bod yn rhaid iddo fod yn gwbl glir o'r dechrau beth yw ystyr y term *Anghenion Dysgu Ychwanegol* mewn gwirionedd, a'r hyn y mae'n ei gwmpasu. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai fod gan bawb yn y maes ddealltwriaeth gyffredin o'r diffiniad a'i gymhwyso'n gyson.

**Gwaith amlasiantaeth a chydweithredu rhwng llywodraeth leol ac iechyd**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai un o dri phrif amcan y Bil drafft yw darparu ar gyfer proses integredig, cydweithredol o asesu ac ymyrryd. Cafwyd cytundeb cyffredinol gan randdeiliaid bod hyn yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau cyflwyno'r ddarpariaeth ADY yn llwyddiannus.

Fodd bynnag, mae pryderon cryf wedi eu mynegi nad yw'r Bil drafft yn sicrhau bod digon o ymgysylltiad â'r cyrff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau, na digon o gydweithredu rhyngddynt, a bod angen cryfhau'r dyletswyddau statudol yn y Bil ar gyfer gweithio aml-asiantaeth. Roedd pryderon penodol yn cynnwys:

- Mae cydweithredu ymhlith y blynyddoedd cynnar yn hanfodol, ond mae'r Bil a'r Cod drafft yn amwys iawn ynghylch ystyr hyn a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol.
- Gellir arwain gallu asesu gan unigolyn nad yw'n weithiwr proffesiynol (ee dull gweithiwr allweddol), ond dylai'r Bil fynegi'n glir nad oes angen i'r person fod o faes 'addysg'.
- Mae angen cael perthynas rhwng y meddyg teulu a'r gweithiwr allweddol. Gallai'r ddyletswydd ar y meddyg teulu i atgyfeirio fod yn gryfach.
- Dylai dull 'Tîm o Amgylch y Teulu' gael ei ystyried.
- Mae'r Bil yn caniatáu i gynlluniau lluosog fod yn weithredol ar yr un pryd, ac mae angen cydlynu cynlluniau fel nad oes unrhyw oedi.
- Roedd angen darparu ar gyfer 'llwybrau dilyniant' i sicrhau asesiad amserol gan yr 'asiantaeth' iawn, yn enwedig lle y gellir mynd i'r afael â rhai agweddau ar ADY heb aros i faterion eraill gael eu datrys hefyd.

Roedd tystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hefyd yn croesawu cyflwyno rôl y DMO / DCO. Unwaith eto, er bod hyn yn cael ei weld fel cam cadarnhaol ymlaen, nid yw'r Bil a'r Cod yn ddigon eglur am yr hyn fyddai'r rôl mewn gwirionedd, beth fyddai deiliad y swydd yn ei wneud, a sut y byddai hyn yn cynorthwyo cydweithio ag addysg.

Mae cytundeb cyffredinol na fydd Adran 14 o'r Bil drafft yn gweithio'n ymarferol. Mae'r pryderon a godwyd yn ymwneud â'r goblygiadau o adran 14 bod rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG gytuno i sicrhau darpariaeth ADY penodol cyn y gellid cynnwys y ddarpariaeth honno mewn Cynllun Datblygu Unigol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai hyn arwain at ansicrwydd wrth gyflwyno darpariaeth ADY, pe na fyddai cytundeb o'r fath yn cael ei roi. Mae yna hefyd

ddiffyg manylion yn y Bil i egluro sut y gallai unrhyw anghytundeb rhwng awdurdodau lleol a chyrff iechyd gael ei datrys, neu sut y gellid ei datrys. Dylid ystyried y diffyg posibl o ran eglurder yn Adran 14 cyn i'r Bil gael ei gyflwyno'n ffurfiol.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod yn rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol benderfynu a oes angen iechyd penodol yn bodoli, ac mae'n credu lle y mae angen iechyd wedi cael ei nodi, y mae'n rhaid sicrhau a chyflwyno'r angen hwnnw. Felly dylai'r Bil roi dyletswydd ar y cyrff iechyd hynny i sicrhau bod darpariaeth ADY briodol yn cael ei sicrhau a'i chyflwyno mewn modd amserol ac effeithiol, lle mae angen o'r fath wedi cael ei nodi, yn hytrach na dim ond mewn amgylchiadau lle mae cyrff iechyd yn cytuno i wneud y ddarpariaeth. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd canfyddedig yn y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ar lywodraeth leol ac iechyd yn ôl eu trefn. Awgrymwyd mewn tystiolaeth bod hyn yn bodoli yn y Bil drafft.

Cododd nifer o randdeiliaid hefyd y gorgyffwrdd posibl o ran asesu ADY a'r darpariaethau asesu a nodir mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai cydlyniad a chysondeb â deddfwriaeth arall gael ei ystyried yn llawn yn natblygiad y Bil ADY.

Oherwydd yr amser oedd ar gael, nid oedd y Pwyllgor yn gallu clywed tystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor felly wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd, i ofyn am ei farn ar y darpariaethau yn y Bil drafft yn gyffredinol, ac yn fwy penodol am y mater o weithio/cydweithredu aml-asiantaeth.

**Manteision a heriau system gymorth wedi'i graddio**

Roedd cefnogaeth gan randdeiliaid i'r bwriad y tu ôl i'r darpariaethau yn y Bil drafft a fyddai'n creu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) fel cynllun statudol sengl i ddisodli'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau AAA neu AAD ar gyfer pob dysgwr y nodwyd bod ganddynt anghenion ychwanegol. Roedd yna hefyd gytundeb cyffredinol y gallai hyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb a pharhad a diogelu hawliau i bawb, cyhyd ag y gallai'r system newydd gadw manteision cymorth wedi'i raddio fyddai wedi'i theilwra i fodloni lefel difrifoldeb neu gymhlethdod anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon bod diffyg manylion naill ai o fewn y Bil drafft neu'r Cod ynghylch sut y byddai'r system newydd ar gyfer

CDU a chymorth wedi'i raddio yn gweithio'n ymarferol. Rhaid darparu rhagor o eglurder ar y mater hwn.

Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch pwy fyddai â'r cyfrifoldeb statudol am y CDU. Ymddengys mai'r broblem fwyaf yw ei bod hi'n bosibl nad y ffordd orau o sicrhau mynediad i wasanaethau eraill yw rhoi'r cyfrifoldeb hwn i gyrff llywodraethu a staff ysgolion. Byddai hyn hefyd yn arwain at oblygiadau o ran cyllid ac adnoddau staffio, er enghraifft llunio'r CDU, gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a datblygu cysylltiadau. Mae'n rhaid i'r Bil a'r Cod gynnwys eglurhad ynghylch pwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau statudol am CDU.

Dadleuodd yr ymatebwyr hefyd fod angen mwy o eglurder o ran pryd y gallai ysgolion gyfeirio asesiadau a CDU i awdurdodau lleol. Nid oedd yn glir i ymatebwyr nac i'r Pwyllgor beth oedd ystyr Adran 11(5) o'r Bil drafft sy'n ymwneud â materion 'y tu hwnt i allu' corff llywodraethu neu sydd 'heb fod yn rhesymol' i gorff llywodraethu eu sicrhau. Nid yw ychwaith yn glir a fydd y cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau ysgolion ac awdurdodau lleol yn debyg i'r system bresennol o Weithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a datganiadau. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai'r Bil drafft gael ei gryfhau er mwyn ystyried y pryderon a godwyd yn y maes hwn.

Mae rôl newydd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) yn newid rôl y Cydlynydd AAA presennol yn sylweddol. Mynegwyd pryderon gan lawer o randdeiliaid fod cyfrifoldebau'r ALNCo yn ymddangos yn sylweddol iawn, ac y byddai'n anodd iawn i un person eu cyflawni. Nid oedd chwaith yn glir a fyddai (neu sut y byddai) hyfforddiant/cymwysterau ar gyfer rôl yr ALNCo yn cael eu cyflwyno. Mae angen rhagor o fanylion.

Yn gysylltiedig â rôl yr ALNCo, teimlai rhai rhanddeiliaid hefyd bod angen mwy o fanylion am y broses ar gyfer adnabod ADY. Yn benodol, mynegwyd pryderon pe byddai ADY yn cael ei asesu fel arfer gan ysgolion, a fyddai ganddynt yr arbenigedd i wneud hyn, yn benodol ar gyfer anghenion amlder-isel.

Dywedodd bron pawb a ymatebodd i'r Pwyllgor y dylid cael templed cytunedig ar gyfer CDU. Gallai hyn, yn y lle cyntaf ddarparu proses symlach ar gyfer cwblhau CDU - gan leihau biwrocratiaeth a rhyddhau adnoddau. Byddai defnyddio templed hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb, tryloywder a chludadwyedd CDU, a byddai'n gwneud y gwaith monitro, er enghraifft gan Estyn, yn fwy ymarferol. Mae

cludadwyedd yn arbennig o bwysig lle y gallai plant a phobl ifanc symud rhwng ysgolion neu rhwng awdurdodau lleol, a allai ddigwydd yn fwy aml i blant sy'n derbyn gofal.

Fodd bynnag, mynegwyd barn y dylai unrhyw dempled o'r fath fod yn hawdd i'w ddefnyddio a heb fod yn rhy rhagnodol, ac y dylai alluogi llwybrau dilyniant.  Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhawyd gennych eich bod wedi gofyn i'r grŵp datblygu cynnwys y Cod i ystyried y syniad o dempledi a sut ffurf ddylai fod i'r rhain.  Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn, ac yn cytuno y dylai'r rhai sydd yn y proffesiwn fod yn rhan o ddatblygu unrhyw dempled.

**Datrys anghydfodau a chreu system decach a mwy tryloyw**

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gyffredinol ddarpariaethau penodol yn y Bil drafft sy'n ymwneud â datrys anghydfod, a chynigion i ymestyn yr hawl i apelio i gynnwys yr holl blant a phobl ifanc ag ADY hyd at 25 oed.  Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu y gellid gwneud mwy i gryfhau rôl a phwerau'r Tribiwnlys.

Mae mynediad agored i Wasanaeth Datrys Anghydfodau Annibynnol ar gam cynnar yn hanfodol a gallai leihau nifer yr anghydfodau sy'n symud ymlaen i'r cam tribiwnlys.  Fodd bynnag, ymddengys bod y gwasanaeth yn cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd.  Mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn cael ei gryfhau a bod ei rôl yn cael ei hegluro a'i hyrwyddo.  Byddai gwasanaethau effeithiol ar gyfer datrys anghydfodau, o gael eu defnyddio'r effeithiol, yn lleihau'r galwadau ar y Tribiwnlys.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y gallai'r Bil gael ei ddefnyddio i ddarparu mwy o bwerau i'r Tribiwnlys mewn nifer o feysydd penodol, gan gynnwys:

- y gallu i ymdrin â throseddwyr cyson ac ymdrin â diffyg gweithredu ar ôl penderfyniadau tribiwnlys;
- hyrwyddo gweithio aml-asiantaeth ag iddo fwy o ffocws;
- cynnig gweithdrefn gymodi yn dilyn penderfyniad y tribiwnlys;
- gallu ystyried methiannau neu achosion o ddiffyg cydymffurfio gan awdurdodau iechyd.  (Nododd Estyn fod diffyg darpariaeth y Bil drafft ar gyfer hyn yn 'ddiffyg sylweddol o bosibl' ac roedd yr arolygiaeth yn cwestiynu pa fath o atebolrwydd fyddai ar gael mewn achosion o'r fath.)

**Sefydlu system 0-25**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bwriad y Bil i ddarparu ar gyfer ADY o 0-25 oed. Fodd bynnag, mae'r ffocws yn y Bil drafft yn bendant ar ysgolion. Mae'n ymddangos bod manylion am ddarpariaeth benodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16 ar goll yn y Bil drafft a'r Cod drafft.

Er bod y derminoleg yn y Bil wedi newid o 'Addysg' i 'Dysgu', roedd y dystiolaeth yn awgrymu nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Bil drafft, gan fod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn llawer o ffyrdd a lleoliadau.

Codwyd llawer o wahanol bryderon mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16. Mae'n glir bod materion gwahanol a allai effeithio ar ddau ben y system oedran 0-25. Mae'r prif bryderon a fynegwyd yn y meysydd hynny wedi'u cynnwys ar wahân isod. Fodd bynnag roedd pryderon hefyd a oedd yn berthnasol i ystod gyfan system oedran 0-25.

Y Blynyddoedd Cynnar

Dylai fod darpariaeth ar gyfer gweithiwr allweddol sy'n annibynnol ar lywodraeth leol a fydd yn cefnogi rhieni a phlant ac yn gweithio gyda'r holl asiantaethau dan sylw. Byddai hyn yn debyg i rôl yr ALNCo. Darparodd y cynllun a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru (y **Rhaglen Cymorth Cynnar**) fodel, ond nid yw'n ymddangos bod y momentwm a chanlyniadau o'r cynllun hwnnw yn cael eu datblygu yn y Bil drafft.

Mae'r 'trothwy' ar gyfer y diffiniad o ADY ar gyfer y rhai yn y blynyddoedd cynnar yn cyfeirio at sut y bydden nhw petaen nhw yn yr ysgol - dylai hyn gael ei ehangu i fod yn fwy cyfannol a chanolbwyntio ar ddatblygiad a chwarae.

Nid oes unrhyw gynrychiolaeth o'r blynyddoedd cynnar yn y rhestr statudol o ymgynghoreion ar y Cod sydd wedi'i chynnwys yn y Bil drafft (Adran 5 (1)) er bod ysgolion yn cael eu cynnwys. Hefyd, nid yw lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cael eu cynnwys ymhlith y rhai sy'n gallu gwneud atgyfeiriadau. Cred y Pwyllgor y dylai cynrychiolaeth o'r blynyddoedd cynnar gael ei chynnwys yn y rhestr o ymgynghoreion ac ymhlith y rhai sy'n gallu gwneud atgyfeiriadau.

Ôl-16

Mae'r newid o ysgolion i golegau yn gyfnod o risg difrifol i rai dysgwyr.  Profiad rhanddeiliaid yw bod arfer gan rai ysgolion yn dda iawn, ond i eraill mae'r cyswllt a'r gwaith papur a drosglwyddir yn llawer mwy amrywiol.  Yn ogystal, nid yw llawer o bobl ifanc yn cael CDU gan eu hysgol, felly bydd angen creu CDU newydd pan fyddant yn cyrraedd y coleg.

Bydd cynyddu'r ddarpariaeth ADY i 25 oed yn cyflwyno gofynion newydd ym maes addysg ôl-16. Rhaid trefnu bod amser ar gael i greu perthnasoedd newydd - er enghraifft rhwng colegau AB ac awdurdodau lleol neu arbenigwyr iechyd.

Mae darparwyr ôl-16 yn helpu pobl ifanc ag ADY i ddod yn fwy annibynnol - ond gall hyn fod yn dipyn o sioc i rai pobl ifanc sydd angen lefel uwch o gefnogaeth unigol (ac sydd wedi dod i arfer â hynny yn yr ysgol) nag a ddarperir yn yr "amgylchedd coleg" safonol.  Bydd hyn yn broblem gynyddol os bydd mwy o bobl ifanc ag ADY yn aros mewn addysg a hyfforddiant.

Nid yw'n glir sut y byddai'r system newydd yn darparu ar gyfer pobl ifanc 16+ sydd mewn addysg neu hyfforddiant, ond nad ydynt mewn sefydliad addysg bellach.  Gallai hyn gynnwys dysgu yn y gwaith, megis prentisiaethau, boed yn syth o'r ysgol neu ar ôl coleg, neu yn wir addysg uwch.  Mae angen mwy o fanylion am hyn, gan gynnwys a all CDU person symud gyda nhw.

**Heriau trawsnewid**

Materion capasiti

Er bod y diwygiadau i'r system ADY (yn y Bil drafft) ar y cyfan yn cael croeso mawr, ni fyddant yn gweithio oni bai fod y gweithlu yn barod.  Mae angen pendant i sicrhau bod y gweithlu ar gael mewn niferoedd digonol a gyda digon o arbenigedd i wneud y Bil yn effeithiol.  Mynegwyd pryder arbennig ynghylch hyfywedd a chynaladwyedd rôl yr ALNCo.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gomisiynu gan yr Uned Pobl a Gwaith i asesu gofynion y gweithlu ADY ac ystyried blaenoriaethau yn y dyfodol.  Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y gweithlu ysgol yn unig, a gwasanaethau AAA arbenigol allweddol a nodwyd

gan ysgolion a gynhelir.  Mae angen i ffocws tebyg gael ei roi ar y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16.

Mae angen i asesu anghenion y gweithlu fod yn flaenoriaeth barhaus gan fod unrhyw system newydd yn debygol o fethu os nad oes capasiti digonol i'w chyflawni.  Rhaid i hyn gael ei ailystyried a rhaid mynd i'r afael â'r mater cyn i Fil gael ei gyflwyno.  Fel isafswm, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai proffil gweithlu llawn sy'n cwmpasu pob agwedd ar yr ystod oedran 0-25 gael ei gynnal.

Anghenion hyfforddi newydd, sylweddol

Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae'n hanfodol bod hyfforddiant priodol ar gael er mwyn sicrhau bod staff newydd a phresennol yn gallu datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol o dan y system newydd - er enghraifft yn ymwneud ag adnabod ADY yn gynnar.  Bydd angen hyfforddiant mwy arbenigol ar staff penodol, tra bydd disgwyl i rai staff feddu ar gymwysterau.

Mae'n rhaid i'r Bil a / neu'r Cod roi eglurder ynghylch pa gymwysterau a phrofiad sydd eu hangen ar gyfer pa rolau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer is-ddeddfwriaeth lle bo angen a lle y bo'n briodol.  Er na ddylai manylion hyfforddiant a chymwysterau sy'n ofynnol ffurfio rhan o'r Bil ADY ei hun, rhaid i waith gael ei wneud ochr yn ochr â hyn i sicrhau bod gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn ei le i alluogi'r darpariaethau yn y Bil i fod yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r graddau yr ydych wedi cysylltu newidiadau i ADY â newidiadau eraill mewn addysg, gan gynnwys Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer y gweithlu addysg ('Y Fargen Newydd').  Mae'n hanfodol bod y trefniadau newydd ar gyfer HCA a DPP yn ystyried yn llawn y cynigion ar gyfer ADY ac yn galluogi'r gweithlu addysg i ennill a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i gyflwyno'r system newydd yn effeithiol.

Costau

Bydd cyflwyno system newydd ar gyfer ADY yn anochel yn arwain at gostau ychwanegol drwy gydol yr ystod oedran 0-25.  Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol o ran y costau a'r adnoddau sydd eu hangen i ysgrifennu CDU.  Bydd adnoddau staff a'r amser ychwanegol sydd ei angen yn gyffredinol i weithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd yn broblem.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y diffiniad o ADY yr un fath ag yr oedd o'r blaen ar gyfer AAA, a disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd nifer y dysgwyr sy'n cael darpariaeth ADY yr un fath ag y mae ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd cyflwyno CDU statudol ar gyfer pob dysgwr ag ADY (sy'n cyfateb i 22.5% o'r holl ddisgyblion ysgol), yn hytrach na datganiadau ar gyfer yn achosion mwyaf difrifol / cymhleth yn unig (sy'n cyfateb i 2.7% o'r holl ddisgyblion) yn sicr yn creu goblygiadau o ran adnoddau. Mae hyn oherwydd, tra bod 12,500 o ddysgwyr ar hyn o bryd â datganiadau a'r 92,500 sy'n weddill yn cael eu hanghenion wedi'u bodloni drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, o dan y system newydd byddai hawl gan bob un o'r 105,000 gael CDU. Bydd y goblygiadau o ran adnoddau yn rhai dynol ac ariannol.

Mae pryder wedi ei fynegi nad yw costau ychwanegol y system newydd a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol drafft yn glir. Mae'r Pwyllgor yn deall nad oes gofyniad i ddarparu Memorandwm Esboniadol neu Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyda Bil drafft, ac yn gwerthfawrogi efallai nad yw'n bosibl ar y cam cynnar hwn i nodi costau manwl gywir.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu nad yw'r Memorandwm Esboniadol drafft yn darparu digon o fanylion i alluogi craffu ariannol priodol ar y cynigion deddfwriaethol. Rhaid i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei gyflwyno gynnwys dadansoddiad clir a chywir o'r costau. Dylai gwybodaeth fod yn glir ynghylch sut y bydd y gwariant presennol yn newid, a ble / sut y dylai CDU gael eu cyllidebu yn iawn. Bydd yn arbennig o bwysig i brofi unrhyw amcanestyniad y bydd y diwygiadau yn niwtral o ran cost dros y tymor hir.

Darpariaeth Gymraeg

Codwyd nifer o bryderon mewn cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch triniaeth gyffredinol y Bil o'r iaith Gymraeg. Testun pryder arbennig yw ei bod yn ymddangos bod darpariaeth annigonol ar gyfer gwella gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg a bod y Bil drafft yn methu â rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru.

Mae'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg, sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol drafft, yn rhoi grym i'r diogelwch a ddarperir gan y safonau iaith Gymraeg statudol. Fodd bynnag, nid yw'r safonau yn berthnasol i ysgolion, ac mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r asesiad effaith fod yn gamarweiniol yn hyn o beth.

Mae'r asesiad effaith hefyd yn cyfeirio at nifer o bwyntiau 'y mae'r Cod drafft yn debygol o'u cynnwys' ond yn gyffredinol nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y Cod drafft gweithio sydd wedi cael ei gyhoeddi.  Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y diffyg cyfeiriad at gyfathrebu â theuluoedd yn eu dewis iaith ym mhennod 4 y Cod drafft, yn peri syndod ac yn siomedig.

Bydd yn bwysig bod fersiynau o'r Bil a'r Cod yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan sicrhau bod y system ADY newydd yn talu sylw llawn i natur ddwyieithog Cymru ac yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Amserlen ar gyfer diwygio**

Fel yr wyf eisoes wedi amlinellu, mae cefnogaeth ar gyfer diwygio ADY, a chytundeb cyffredinol o ran cyflwyno'r Bil gan y rhai sy'n ymateb i'r Pwyllgor. Er bod llawer o ymatebwyr yn deall y rhesymau dros yr oedi cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol eleni, mynegwyd pryder y gallai hyn gael effaith anfwriadol ar awdurdodau lleol gyda hwythau'n peidio â gweithredu'r system bresennol yn gyson, wrth iddynt aros am y newidiadau arfaethedig.

Felly, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'r system bresennol yn llawn, wrth i gynigion i ddiwygio'r system gael eu hystyried a'u gweithredu.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
Cadeirydd